EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS

FORGET-ME-NOT-PRODUCTIONS

PROSIECT

FFRAMWAITH MUSIC-CAN

Clary Saddler, Cyd-gyfarwyddwr Forget-Me-Not-Productions sy'n esbonio sut y maent wedi defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd trwy eu prosesau cynllunio a gwerthuso.

AM Y PROSIECT

Rydym wedi datblygu ac yn mireinio ein fframwaith MUSIC-CAN i'w weithredu gyda phobl ag anghenion cymhleth iawn. Mae MUSIC-CAN yn sefyll am:

- 'Motivate' - ysgogi ymgysylltu gyda gweithgareddau technoleg gynorthwyol a chelfyddydol
- 'Unlock' - datgloi hunanfynegiant a photensial cudd mewn unigolion ag anghenion cymhleth
- 'Shape' - ffurfio pob sesiwn yn ôl anghenion y rhai sy'n cymryd rhan
- 'Introduce' - cyflwyno cysyniadau am achos ac effaith, cymryd tro, a chyfnod cyn cyfathrebu/cyfathrebu cynnar
- 'Cultivate' - meithrin diwylliant o ddysgu creadigol sy'n ymwreiddio technoleg gynorthwyol mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hunanfynegiant
- 'Challenge' - herio gallu pobl i ddysgu sydd ag anableddau gwybyddol a chorfforol cymhleth
- 'Achieve' - cyflawni canlyniadau mesuradwy
- 'Manage' - rhwystrau a disgwyliadau ymhlith staff, athrawon, staff gofal, a'r rhai sy'n cymryd rhan

Dros y 3 blynedd diwethaf rydym wedi bod yn profi'r Egwyddorion Ansawdd gyda'n cleientiaid MUSIC-CAN, staff/athrawon ac yn Forget-Me-Not-Productions fel cwmni.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Rydym yn teilwra pob sesiwn gan sicrhau mai'r cyfranogwyr sy'n arwain. Mae'r holl weithgareddau yn cael eu gosod a'u paratoi mewn ffordd sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol. Rydym yn bennaf wedi defnyddio gwylio ymatebion y cyfranogwyr yn weithredol er mwyn gwerthuso ac asesu effeithiolrwydd yr Egwyddorion Ansawdd. Rydym hefyd yn cynllunio'r holl sesiynau ar y cyd ac yn rhannu ein hystyriaethau trwy adroddiad i dîm Forget-Me-Not, y dysgwyr/cyfranogwyr, y timau gofal a'r staff addysgu.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Defnyddiwyd yr Egwyddorion Ansawdd gyda chyd-gyfarwyddwr Forget-Me-Not-Productions (Mel Saddler a Clary Saddler), yn ogystal â'n tîm staff llawrydd. Fel arfer roeddem yn defnyddio taflen waith Egwyddorion Ansawdd wrth gynllunio ein sesiynau ar y cyd. Weithiau byddem yn cyfeirio at y llyfryn Egwyddorion Ansawdd mwy ac adnoddau ar-lein. Fel arfer roedd y pwyslais ar ddefnyddio mynediad trwy gyswllt llygad, sgrin gyffwrdd neu trwy switsh ar gyfer y fframwaith MUSIC-CAN (adnodd yr ydym wedi ei greu ein hunain) i alluogi cyfranogwyr ag anghenion cymhleth i gymryd rhan yn annibynnol mewn gweithgareddau celf yn canolbwyntio ar y cyfranogwr. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd trwy gydol y sesiynau, gan sicrhau bod y gweithgareddau yn cael eu gosod ar y lefel gywir.

Defnyddiwyd yr Egwyddorion Ansawdd hefyd pan oeddem yn gwerthuso'r sesiynau ar y cyd rhyngom ein gilydd neu gyda staff, athrawon a gofalwyr. Yna byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu i weddill tîm Forget-Me-Not, y tîm gofal, athrawon neu staff arall trwy adroddiad fel arfer, gan wneud argymhellion ar gyfer cynnydd cyfranogwyr, gan sicrhau perchenogaeth a chyfrifoldeb ar y cyd. Roedd yn rhaid i'r holl sesiynau gael eu trefnu mewn lleoliad addas mewn ystafell synhwyraidd ac addasiadau pan oedd hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Fel y soniwyd o'r blaen, mae ymarferwyr creadigol yn reddfol yn ymwreiddio Egwyddorion Ansawdd yn eu cynllunio, cyflwyno a gwerthuso o ddydd i ddydd. Roedd defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd yn sicr yn gweithio'n well i mi a thîm Forget-Me-Not pan oedden ni'n defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd yn fwy organig yn hytrach na'i orfodi neu ei wneud yn ffuantus. Rwyf yn sicr wedi dysgu dilyn fy ngreddf yn fwy wrth ystyried ac wrth fesur ansawdd mewn eraill, gan fy mod yn teimlo bod gennyf allu cynhenid yn y maes hwn (o ran dynodi ansawdd a mesur llwyddiant mewn cymhariaeth â hyn).

AWGRYMIADAU DA

· Ewch gyda'ch greddf – y tebygolrwydd yw eich bod chi yn reddfol a naturiol yn ymwreiddio'r Egwyddorion Ansawdd heb sylweddoli hynny. Ymddiriedwch yn eich greddf!

· Ail-ysgrifennwch yr Egwyddorion Ansawdd yn eich geiriau eich hun ac mewn iaith yr ydych yn ei defnyddio bob dydd yn eich hymarfer.

· Crëwch eich adnoddau neu fframwaith eich hun ar sail yr Egwyddorion Ansawdd (rydym ni wedi datblygu'r fframwaith MUSIC-CAN) a defnyddiwch adnoddau i weddu i'ch ymarfer eich hun (rhywbeth gweledol os ydych yn artist, er enghraifft.)

RHAGOR O WYBODAETH

forget-me-not-productions.co.uk

Forget-me-not-productions

ArtWorks Cymru

phf Paul Hamlyn Foundation
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government